# Adalimumab a dexamethasone ar gyfer trin wfeitis nad yw'n heintus

26 Gorffennaf 2017

Mae adalimumab (Humira) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer wfeitis nad yw'n heintus mewn oedolion os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae ganddynt lid yn y llygad (clefyd 'gweithredol') ac
- mae eu golwg yn gwaethygu ac maent yn wynebu risg fawr o fod yn ddall ac
- ni allant gael gwrthimiwneddion, neu nad ydynt yn gweithio'n ddigon da iddynt ac
- nid yw eu clefyd wedi ymateb yn ddigon da i gorticosteroidau ac
- mae ganddynt glefyd systemig (hynny yw, mae wfeitis yn symptom o glefyd arall) neu pan fydd wedi effeithio ar y ddau lygad (neu, os bydd ond wedi effeithio ar un llygad, mae golwg gwael yn y llall).

Dylid rhoi'r gorau i driniaeth gydag adalimumab o dan amgylchiadau penodol, megis os bydd y clefyd yn gwaethygu.

Mae mewnblaniad mewnwydrog dexamethasone (Ozurdex) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer wfeitis nad yw'n heintus mewn oedolion os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae ganddynt lid yn y llygad (clefyd 'gweithredol') ac
- mae eu golwg yn gwaethygu ac maent yn wynebu risg o fod yn ddall.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Os nad ydych yn gymwys i gael adalimumab na dexamethasone, ond rydych eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## *Gwybodaeth a chymorth*

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- Olivia's Vision, 08450 785114
- RNIB, 0303 123 9999
- Cymdeithas Wfeitis Birdshot, 0845 605 1195

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2606-0

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights